



## Canolradd (De)

### Chwarae'r Gêm - Act 1



(Nodyn i'r Tiwtor: Os dych chi'n dilyn Cwrs Canolradd CBAC (y De) bydd y ddrama hon yn addas unrhyw bryd ar ôl Uned 1.)

Clwb Pêl-droed San Germano yn yr Eidal. Mae Michael Jones, 23 oed, yn curo ar ddrws Rheolwr San Germano. Mae troed Michael mewn plaster.

Rheolwr: Prego!

*Mae Michael yn agor y drws ac yn mynd i mewn.*

Rheolwr: Michael! Sut wyt ti? Croeso i San Germano!

Michael: Diolch.

Rheolwr: Pryd cyrhaeddoch chi i gyd?

Michael: Cyrhaeddod ni faes awyr Napoli awr yn ôl. Roedd y bechgyn wedi blino felly aethon nhw yn syth i'r gwesty.

Rheolwr: Oedd Gwyn Thomas gyda nhw?

Michael: *(Yn sarcastig)* Rheolwr bendigedig tîm bendigedig Caerddinas? Nac oedd. Cyrhaeddodd Gwyn ddoe. Roedd e eisiau amser i arfer â'r tywydd poeth.

Rheolwr: Dw i'n deall hynny. Mae hi'n dri deg gradd selsiws yma heddiw ac mae hi'n mynd yn boethach bob dydd.

Michael: Mae hi'n ddeuddeg gradd yng Nghymru!

*Mae'r ddau yn chwerthin.*

Rheolwr: *(Mae e'n edrych ar goes Michael.)*

Beth wnest ti?

Michael: Beth wnes i?

Rheolwr: Beth wnest ti i'r droed?

Michael: Dim...dim byd o gwbl.

Rheolwr: Felly pam rwy'ti'n gwisgo plaster?

Michael: Dw i ddim eisiau chwarae yn y gêm fory. Mae fy chwaer yn nyrs yn Ysbyty Abertawe. Rhoddodd hi blaster ar fy nhroed. Mae Gwyn yn meddwl bod problem gyda'r metatarsal.

Rheolwr: A'r gêm fory?

Michael: Paid â phoeni. Caerddinas yw'r ffefrynnau ond bydd San Germano yn ennill. Rhoddais i'r arian i'r bechgyn y bore 'ma.

Rheolwr: Ydy pawb wedi cael arian?

Michael: Na. Doedd Medwin, y goli, ddim eisiau arian ond mae e'n mynd i gadw'n dawel.

Rheolwr: Dw i'n deall. Defnyddiaist ti dipyn o berswad. Oes problem?

Michael: Na. Dyw e ddim yn goli da iawn!!!

*Mae'r ddau yn chwerthin eto.*

Rheolwr: Wel, tan nos yfory....

Michael: Ie. Dw i'n mynd am 'pizza'....ond mae un peth arall.

Rheolwr: Yr arian? Dyma ti....pum deg mil o bunnau. Cei di 'pizza' da iawn am bum deg mil o bunnau.

#### Geirfa

Prego – Yes (What do you want?/Come in)! (Eidaleg)

Ffefrynnau - Favourites